Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
Andrew Green
Prif Weithredwr/Chief Executive:
Dr Ioan Matthews

Ffôn/Phone:
01267 610400
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

Dyfarniadau'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil, 2016/17

Dyddiad: 24 Mawrth 2016

Cyfeirnod: 15/04

At: Penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol.

Ymateb erbyn: Nid oes angen ymateb.

Cyswllt: Dr Dylan Phillips
d.phillips@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys penderfyniadau'r Coleg ar ysgoloriaethau doethurol i'w cyllido drwy'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil i gychwyn yn 2016/17.

Mae'r dogfen hon ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd: www.colegcymraeg.ac.uk/cylchlythyron

Dyfarniadau'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil, 2016/17

Cefndir

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau'r ysgoloriaethau doethurol a fydd yn cael eu cyllido gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg] o 2016/17.

2. Gwahoddwyd ceisiadau i'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil mewn cylchlythyr a gylchredwyd i'r sefydliadau ar 3 Rhagfyr 2015 (Cyf 15/02), gyda'r dyddiad cau ar 1 Chwferor. Ystyriwyd y ceisiadau ar 21 Mawrth 2016 gan dri aelod o Banel Grantiau'r Coleg, sef yr Athro Jane Aaron, yr Athro Noel Lloyd a Dr Hefin Jones.

3. Mae penderfyniad Cyfarwyddwyr y Coleg yn derfynol.

4. Gall sefydliadau dderbyn adborth ar geisiadau aflwyddiannus drwy gysylltu â'r Coleg drwy e-bost.

Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil

5. Nodwyd yn y cylchlythyr ar gyfer 2016/17 (cymal 34) y dyfernid hyd at ddeg Ysgoloriaeth Ymchwil, yn seiliedig ar:

   (i) rhagoriaeth academaidd yr ymgeisydd,
   (ii) testun / gwreiddioldeb y prosiect ymchwil arfaethedig,
   (iii) profiad a record yr ysgol / adran academaidd yn cyfarwyddo gwaith ymchwil, a
   (iv) chyfraniad dichonol y dyfarniad / deiliad at gyflawni nodau strategol y Coleg.

6. Nododd y cylchlythyr hefyd (cymal 35) y byddai'r Coleg yn barod i ystyried ceisiadau gan ysgolion / adrannau academaidd sydd heb adnabod deiliad addas ar gyfer yr ysgoloriaeth. Mewn ceisiadau felly dyfernid yr ysgoloriaethau ar sail y meini prawf a amlinellwyd yn 34 (ii), (iii) a (iv), ac y byddai'n rhaid i'r ysgoloriaethau gwag hynny gael eu hysbysebu'n agored yn y wasg.

7. Derbyniwyd 18 o geisiadau am gynlluniau prosiect doethurol i'w cyllido drwy'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil eleni. Mynegodd y panel dyfarnu eu balchder yn y ffaith fod safon y ceisiadau i gyd yn uchel iawn, a bod nifer o'r ymgeiswyr yn dangos potensial mawr a / neu fod eu prosiectau ymchwil arfaethedig yn rhai diddorol a chyffrous. Sgoriwyd bob un o'r ceisiadau yn unol â'r meini prawf a thrafodwyd barn aelodau'r Panel ar bob cais unigol cyn rhoi ystyriaeth ofalus i'r sefyllfa strategol ehangach oddi fewn i'r pynciau a gynrychiolid o safbwynt capasiti, darpariaeth a dilyniant, a gwerth buddsoddiad y Coleg.

8. Rhestrir yn **Atodiad A** yr ysgoloriaethau sydd i'w cyllido gan y Coleg i gychwyn yn 2016/17. Cefnogwyd un Ysgoloriaeth (wedi'i nodi â **) yn amodol ar ddatrys rhai materion a chwestiynau penodol a godwyd gan y panel. Ceidw'r Coleg hefyd yr hawl i ofyn barn a chyngor arbenigwr pwnc ar unrhyw ddyfarniad CYN cytuno i'w gyllido.

9. Disgwylir i bob un dyfarniad gychwyn yn nhymor yr hydref 2016.

10. Bydd yr holl ysgoloriaethau yn cael eu cyllido ar sail yr amodau cyffredinol a nodwyd yn y cylchlythyr yn gwahodd ceisiadau.

Camau nesaf

11. Mewn ceisiadau a seiliwyd ar ymgeisydd penodol, disgwylir i'r sefydliadau eu hysbysu mor fuan â phosib o'u llwyddiant ac i gadarnhau wrth y Coleg cyn **16 Mai 2016** eu bod yn derbyn yr ysgoloriaeth.

12. Lle nad enwyd unigolyn mewn cais, disgwylir i'r sefydliad a'i cyflwynodd ddilyn proses agored a chystadleuol i benodi unigolyn addas a chymwys i'r ysgoloriaeth. Rhaid i'r broses benodi fod wedi'i chwblhau a deiliad wedi'i benodi cyn **1 Gorffennaf 2016**. Mae'r Coleg yn dymuno gweld drafft o bob hysbyseb ar gyfer ysgoloriaeth wag cyn iddi gael ei hysbysebu. Dylid anfon drafftiau o hysbysebion at y Coleg er mwyn derbyn cymeradwyaeth, i sylw Dr Dylan Phillips (d.phillips@colegcymraeg.ac.uk).

13. Y sefydliadau fydd yn gyfrifol am lenwi'r ysgoloriaethau gwag a ddyfernir ac am benodi ymgeiswyr cymwys ac addas. **O fethu llenwi ysgoloriaeth wag oddi fewn i'r amserlen a nodir uchod (12), bydd y dyfarniad yn disgyn**.

14. Bydd pob penodiad i ysgoloriaeth wag yn amodol ar lenwi ffurflen enwebu a derbyn cymeradwyaeth y Coleg cyn i'r ysgoloriaeth gael ei chynnig yn ffurfiol i ymgeisydd. Rhaid i'r ffurflen enwebu gyrraedd y Coleg erbyn **15 Gorffennaf 2016**.

15. Yn ogystal â'r deg ysgoloriaeth a restrir yn Atodiad A, y mae'r panel dyfarnu hefyd wedi adnabod nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau wrth gefn. Yn achos unrhyw ysgoloriaeth sydd ag ymgeisydd na fydd wedi'i chadarnhau erbyn 16 Mai (gw. 11 uchod), neu ysgoloriaeth wag na fydd wedi'i llenwi erbyn 1 Gorffennaf (gw. 12 uchod), fe ariennir yr ysgoloriaethau wrth gefn yn eu lle, yn y drefn y'u dyfarnwyd gan y panel.

16. Bydd y Coleg yn cysylltu â'r sefydliadau perthnasol sydd ag ysgoloriaeth wrth gefn er mwyn eu hysbysu pa ysgoloriaethau sydd ar y rhestr ac ym mha drefn, ac i ofyn iddynt hysbysu'r ymgeiswyr o'r sefyllfa. Pe byddai unrhyw un o'r ysgoloriaethau a restrir yn Atodiad A yn disgyn, bydd y Coleg yn cysylltu â'r sefydliad sydd ag ysgoloriaeth wrth gefn a gofyn iddynt gadarnhau erbyn **29 Gorffennaf 2016** fod yr ymgeisydd yn derbyn yr ysgoloriaeth.

17. Ni fydd hawl gan sefydliad i ddewis dyfarnu ysgoloriaeth wrth gefn dros nac ar draul un o'r ysgoloriaethau a restrir yn Atodiad A oni bai fod yr ysgoloriaeth honno'n disgyn. Rhoddir blaenoriaeth i'r ysgoloriaethau a restrir yn Atodiad A dros y rhai wrth gefn.

18. Ni fydd y Coleg yn caniatáu unrhyw eithriadau i'r amserlen uchod. Pe na lwyddir cwblhau'r broses benodi ac enwebu oddi fewn i'r amserlen uchod, fe fydd y dyfarniad yn disgyn.

19. Wedi derbyn cadarnhad gan y sefydliadau fod yr ymgeiswyr yn derbyn yr ysgoloriaethau (yn unol â'r drefn a amlinellwyd), fe fydd y Coleg yn cysylltu

gyda phob un o'r deiliaid i'w llongyfarch ac yn eu gwahodd i fynychu diwrnod cynefino arbennig yng Nghaerfyrddin ar **16 Medi 2016** er mwyn eu cyflwyno i waith y Coleg ac amodau'r cynllun. Bydd mynychu'r cyfarfod hwnnw'n orfodol.

ATODIAD A

Disgyblaeth / Maes Pwnc	Ymgeisydd	Sefydliad
Chwilota am ensymau hydrolytic a chemegion gwrthfiotig ymysg y ffyngau anaerobig: Tarddiad esblygiadol a photensial biotechnolegol	Rebeca Evans	Prifygol Aberyswyth
Ymchwil i waddol tocsig cemegau a gyflwynir i'r pridd gan *Rhododendron ponticum*	Gruffydd Lloyd Jones	Prifygol Aberyswyth
Gweithiau JR Jones: ymchwilio i themâu allweddol a tharddiad ei syniadau	(dim ymgeisydd)	Prifysgol Caerdydd
Hanes y Cymry a'r Casia mewn Alawon – Ymchwiliad Creadigol a Rhyngddiwylliannol	Gareth Bonello	Prifysgol De Cymru
Ysgrifennu Creadigol Ymarfer-fel-Ymchwil: Archwilio methodoleg addasu o'r newydd, sef, yn gyntaf addasu albwm cerddorol yn gyfres o straeon byrion ar ffurf nofel gyfansawdd, ac yna addasu'r rhain yn naratif glasurol gyflawn ar ffurf drama lwyfan.	Wyn Mason	Prifysgol Abertawe
Astudiaeth o amrywiadau a newidiadau ieithyddol yn y Gymru gyfoes, ynghyd ag ymagweddau tuag atynt ymhlith siaradwyr.	Elain Jones	Prifysgol Caerdydd
Astudiaeth o'r berthynas rhwng ymgysylltiad pobl ifainc yn eu harddegau â'r ysgol, gwaharddiad ohoni, ac ymddygiad troseddol.	Heddwen Lleucu Daniel	Prifysgol Aberystwyth
Deall sut mae plant ifanc yn ymateb i'r profiad o glywed a darllen barddoniaeth a darganfod beth yw'r cyswllt rhwng y ddau brofiad. Hefyd, edrych ar sut y gallwn ddefnyddio ffurfiau barddonol i wella dysgu mewn plant ifanc.	(dim ymgeisydd)	Prifysgol Bangor
Canfod beth yw'r rhwystrau rhag i siaradwyr amharod y Gymraeg fod yn ddefnyddwyr y Gymraeg ac adnabod dulliau a fydd yn sicrhau bod siaradwyr amharod yn troi'n ddefnyddwyr y Gymraeg.	(dim ymgeisydd)	Prifysgol Bangor
** Adnabod mecanweithiau moleciwlar ghrelin sy'n gyfrifol am ei effeithiau amddiffynnol yng nghlefyd Parkinson: rôl mewn hunanysiant.	Luke Roberts	Prifysgol Abertawe